# Cyfarfod o'r Grŵp Gwybodaeth Tai
# 26 Medi 2019
# Cydweli 1 a 2, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Nia Roblin | Cymdeithas Tai Unedig Cymru |
| Angela Bowen | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Nathan Hartley | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Matthew Miller | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Keryl Lanfear | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jenny Murphy | Cartrefi Dinas Casnewydd |
| Mark Harris | Home Builders Federation Ltd |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| Simon Lannon (SL) | Ysgol Pensaernïaeth Cymru |
| Michelle Lewis | Cyngor ar Bopeth |
| Juliet Morris (JM) | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Jo Patterson | Prifysgol Caerdydd |
| Bob Smith (BS) | Prifysgol Caerdydd |
| Bryony Haynes | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Sarah Scotcher | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Paul Webb (PW) | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Luned Jones (LJ) | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Sue Leake | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Rhian Davies (RD) | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Gowan Watkins (GW) | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Laura Andrews | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Huw Lewis | Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) |
| Lisa Dobbins (LD) | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) |
| Darren Hatton | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) |
| Cathy Johnson | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) |
| Sian Coggins | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) |
| Fran MacDonald (FM) | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) |
| Siwan Gwyndaf | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) (Fideogynadledda) |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Chantal Jordan | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Ceri Meloy | Tai Pawb |
| Karl Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Paul Robinson | Llywodraeth Cymru |

## 1. Croeso a chyflwyniad

Croesawodd PW pawb i'r cyfarfod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Aeth PW trwy gamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf:

- Cam gweithredu: BS i rannu dolen i adroddiadau ymchwil CACHE – cwblhawyd.

## 3. Datgarboneiddio cartrefi drwy fesurau effeithlonrwydd ynni

Rhoddodd LD a SL gyflwyniad ar ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru.

### Datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru

Rhoddodd LD gyflwyniad ynghylch y gofynion, yr argymhellion a phwysigrwydd datgarboneiddio'r stoc dai yng Nghymru. Tynnodd sylw at y newid o ran y targed ar gyfer lleihau allyriadau carbon erbyn 2050, o 80 y cant i 95 y cant, yn sgil cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Mae'r lleihad hwn yn gofyn am gamau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio cartrefi drwy raglen ôl-osod.

Gwnaed saith prif argymhelliad yn yr adroddiad Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell a gyhoeddwyd ar 18 Gorffennaf 2019, a gafodd eu derbyn (mewn egwyddor) gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James) yn gynharach yr wythnos hon (24 Medi 2019). Nododd LD fod cefnogaeth drawsbleidiol i'r argymhellion hyn hefyd ac mae'r rhaglen ddatblygu eisoes wedi cychwyn, gyda golwg ar weithredu hyn yn ystod tymor newydd y Llywodraeth o haf 2021.

### Cartrefi heddiw ar gyfer yfory

Trafododd SL y ddau brif gam ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru rhwng 2020 a 2050 yn fanwl. Y cam cyntaf oedd deall yr her a'r ail gam oedd cynnal ymarfer modelu er mwyn deall maint a siâp y stoc dai yng Nghymru, a'r potensial i'w ddatgarboneiddio.

Cyflwynodd SL ei ganfyddiadau mewn perthynas â cham 1 ac amlinellodd bod y model a ddeilliodd o hynny yn cynnwys:

- 14 o fodelau anheddau i gynrychioli stoc dai Cymru
- Pedwar naratif ôl-osod er mwyn edrych ar yr opsiynau ôl-osod domestig
- Tri senario cyflenwi ynni er mwyn edrych ar effaith ynni glanach.

Ystyriwyd tri senario (ar sail y targed gwreiddiol o ddatgarboneiddio 80 y cant o gartrefi erbyn 2050, yn hytrach na'r targed diweddaraf o 95 y cant). Cyflwynwyd costau cyfalaf ac argymhellion i ddilyn.

Cafwyd trafodaethau dilynol ar bympiau gwres. Nododd SL fod pympiau gwres yn gallu cynyddu costau biliau ynni er gwaetha’r ffaith bod hyn yn fwy effeithlon gan fod y costau o newid o nwy i drydan yn gynnydd mwy na'r lleihad mewn biliau. Felly, gallai atebion gynnwys pympiau gwres yn ogystal ag ynni adnewyddadwy.

Roedd yn ddiolchgar am gael defnyddio canlyniadau'r ACTC diweddaraf yn y gwaith modelu.

Roedd peth trafodaeth ynghylch y gofynion o ran tystiolaeth e.e. cydnabod yr angen i werthuso a deall yr effaith ar y defnydd o ynni mewn cartrefi, gan ystyried ymddygiadau a pha mor agored i niwed yw'r rhai sy'n byw ar yr aelwyd.

## 4. Tystiolaeth ar Effeithlonrwydd Ynni Cartrefi a Thlodi Tanwydd

Rhoddwyd gwybod i'r grŵp am ddyddiad cyhoeddi diweddaraf yr adroddiad am Effeithlonrwydd Ynni mewn Anheddau, sef 23 Hydref 2019.

Cafwyd cyflwyniad gan GW ar brif ganfyddiadau'r adroddiad Tlodi Tanwydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar 29 Awst 2019:

- Roedd 155,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, sy'n gyfwerth â 12 y cant o'r holl aelwydydd (332,000, 26 y cant; 2008). O'r rhain, roedd 32,000 mewn tlodi tanwydd difrifol, sy'n gyfwerth â dau y cant o'r holl aelwydydd (60,000, pump y cant, 2008)
- Roedd 130,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed mewn tlodi tanwydd, sy'n gyfwerth â 11 y cant o'r holl aelwydydd sy'n agored i niwed (285,000, 29 y cant; 2008). O'r rhain, roedd 19,000 mewn tlodi tanwydd difrifol, sy'n gyfwerth â dau y cant o'r holl aelwydydd (52,000, pump y cant, 2008).

Trafododd GW hefyd sut oedd y canlyniadau yn cymharu â chenhedloedd eraill yn y Deyrnas Unedig, y mathau o aelwydydd a'r anheddau sydd mewn tlodi tanwydd, a'r rhesymau dros y gwelliant ers 2008.

Nododd JM fod y gwelliant o ran tlodi tanwydd i'w weld ar draws pob math o bobl, yn hytrach na phobl sy'n agored i niwed yn benodol. Ychwanegodd GW fod y Strategaeth Tlodi Tanwydd a fu'n rhedeg o 2010 i 2018 wedi dod i ben a bod ymgynghoriad ar y strategaeth newydd yn digwydd yr hydref hwn.

## 5. Rhaglen Tai Arloesol

Trafododd DH sut y mae'r Rhaglen Tai Arloesol wedi dangos arbedion ynni a chartrefi di-garbon. Nod y rhaglen yw creu cynlluniau arddangos er mwyn cael gwybodaeth am y math o gartrefi y dylid eu cefnogi yn y dyfodol. Mae hefyd yn cyd-fynd â nifer o'r nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Siaradodd DH am y mathau gwahanol o dai sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun ym mlwyddyn un, dau a thri.

Mae'r gwaith yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cynllun yn darparu mynediad i drydydd parti osod mesuryddion monitro er mwyn gwerthuso effaith y datblygiadau tai newydd. Fodd bynnag, nid oes trydydd parti wedi cynnal ymchwil ar y data sydd ar gael eto. Nododd DH fod cyllid yn debygol o fod ar gael am flwyddyn arall i redeg y Rhaglen Tai Arloesol (sy'n ei ymestyn o dair blynedd i bedair).

## 6. Diweddariad CACHE

Trafododd BS bapur (a gafodd ei rannu yn ystod y cyfarfod) mewn cysylltiad â Chanolfan Gydweithredu'r Deyrnas Unedig ar gyfer Tystiolaeth Tai gan dynnu sylw at y digwyddiadau CACHE yng Nghymru ar 12 Tachwedd 2018 (‘Delivering Additional Affordable Housing in Wales’) a 9 Ionawr 2020 (cynhadledd tai). Dangosodd GW y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth CACHE i'r grŵp.

## 7. Diweddariad tai

Rhoddodd LJ drosolwg o'r Papur Diweddaru ar Dai, gan drafod yr hyn sydd wedi'i gyhoeddi a'r hyn sydd yn yr arfaeth. Tynnodd sylw at ystadegau digartrefedd diweddaraf a gyhoeddwyd heddiw (26 Medi 2019) a chanlyniadau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), y mae disgwyl iddynt ddod allan yr wythnos nesaf (3 Hydref 2019), ac ychwanegodd fod yr amcangyfrifon o'r angen am dai wedi eu cyhoeddi yn gynharach eleni.

## 8. Ymchwil tai

Rhoddodd RD ddiweddariad ar Ymchwil Tai (sydd wedi'i gynnwys yn y papur diweddaru gan Lywodraeth Cymru). Soniodd am y gwaith presennol sy'n mynd rhagddo gydag rhai prosiectau, ac un ohonynt yw prosiect i gael deall a chasglu barn a phrofiadau tenantiaid o’r sector rhentu preifat ynghylch troi allan, y berthynas â landlord, etc).

Mae yno hefyd gysylltiad â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft a nifer o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru yn Adran 4 o'r Papur Diweddaru ar Dai.

## Unrhyw fater arall

Bydd seminar flynyddol y Grŵp Gwybodaeth Tai yn cael ei chynnal ar 30 Ionawr 2021. Gofynnodd LJ i aelodau'r Grŵp Gwybodaeth Tai ystyried pynciau posibl.

Cam gweithredu: LIC i ofyn i'r Grŵp Gwybodaeth Tai gynnig pynciau ar gyfer y seminar ym mis Ionawr 2020.